**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **5 Tachwedd 2014**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Awdur yr Adroddiad:** **Stuart Andrews, Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro**

**Teitl: Cyflwyno Rheolau Diwygiedig y Weithdrefn Gontractau**

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymdrin ag o?

Cyflwyno Rheolau y Weithdrefn Gontractau diwygiedig i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo ar 9 Rhagfyr, 2014 - Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau drafft yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer adolygu a rhoi sylwadau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo a'u mabwysiadu ar 9 Rhagfyr 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn nodi ac yn derbyn y Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig ac yn awdurdodi eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2014.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Nid yw'r Rheolau Gweithdrefnau Contract presennol wedi cael eu hadolygu'n llawn ers eu mabwysiadu'n flaenorol yn 2004. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddogfen gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a Dirprwy Swyddog Monitro i ddiweddaru'r ddogfen yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau caffael arferion gorau diweddaraf.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae ychwanegu cymalau sy'n gwneud ystyried cymalau Budd i'r Gymuned ym mhob contract uwchlaw £2,000,000 yn cyfrannu at flaenoriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Yr isaf yw'r trothwyon ariannol, bydd yn galluogi i fwy o gyfleoedd gwerth tendro llai i gael eu hysbysebu a fydd yn caniatáu i fusnesau bach a chanolig lleol i fod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost o fabwysiadu'r ddogfen hon ac ni fydd angen staff ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi’r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes unrhyw oblygiadau ar unrhyw un o'r staff neu'r gymuned fel y nodwyd yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl feysydd gwasanaeth y Cyngor o ran y broses o adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Contractau. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a’u hystyried lle bo'n briodol ac yn berthnasol i ofynion y ddogfen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract yn ffurfio rhan bwysig o gaffael ac mae eu hadolygu yn gwella rheolaeth y cyngor o’r swyddogaeth hon.

**10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw Adrannau nad yw'n cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd a all amharu ar Reoliadau Caffael y DU a'r UE. Ar ôl rhoi’r ddogfen ddiwygiedig ar waith, bydd rhaglen hyfforddi ar gyfer pob maes gwasanaeth i ddiffinio gofynion y ddogfen a'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae hwn yn bapur er gwybodaeth yn hytrach na phenderfyniad cyn ei gyflwyno i'r cabinet llawn.

Dogfennau sy’n Amgaeedig:

Atodiad 1 Rheolau’r  Weithdrefn Gontractau (Diwygiedig)

Atodiad 2 Crynodeb o'r Newidiadau Allweddol